

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 20 Medi 2021

SL(6)043 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020").

Diwygiodd Rheoliadau 2020 Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 er mwyn caniatáu, o dan amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws:

- (a) panelau apêl a chanddynt ddau aelod, ac
- (b) i banelau apêl gynnal gwrandawriadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig.

Mae Rheoliad 2(2) o Reoliadau 2020 yn darparu bod y diwygiadau hynny yn peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021. Diwygiwyd y dyddiad hwnnw i 30 Medi 2021 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020

Prif effaith rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yw diwygio'r dyddiad 30 Medi 2021 yn Rheoliadau 2020 i 30 Medi 2022. Golyga hyn fod y diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2020 yn parhau i gael effaith tan 30 Medi 2022.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

Fe'u gwnaed ar: 06 Medi 2021

Fe'u gosodwyd ar: 08 Medi 2021

Yn dod i rym ar: 29 Medi 2021



SL(6)045 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r [Gorchymyn](#) hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r tâl ar gyfer athrawon ysgol (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 122 o Ddeddf Addysg 2002 (c.32)) yng Nghymru ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gweithio. Mae'r Gorchymyn yn gwneud y ddarpariaeth hon drwy gyfeirio at adran 2 o ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol" ("y Ddogfen"). Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol, o dan adran 123(3) o Ddeddf Addysg 2002, er mwyn darparu bod y darpariaethau a nodir yn adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2021 er bod y Gorchymyn yn dod i rym ar ôl y dyddiad hwnnw (erthygl 2). Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2020 (erthygl 3).

Mae'r Ddogfen yn ymwneud ag athrawon a gyflogir gan awdurdod lleol neu gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig wrth ddarparu addysg gynradd neu uwchradd. Mae'r ddogfen yn cadarnhau bod codiad o 1.75% wedi'i gymhwyso i'r holl bwyntiau graddfa a lwfansau statudol, a bydd yr holl godiadau cyflog yn gymwys o 1 Medi 2021.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Addysg 2002

Fe'u gwnaed ar: 08 Medi 2021

Fe'u gosodwyd ar: 09 Medi 2021

Yn dod i rym ar: 30 Medi 2021

